Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

# Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer Trawsgrifio Llais mewn Gofal Cymdeithasol

## Crynodeb Gweithredol



Mae gan dechnolegau Deallusrwydd Artiffisial y potensial i wella gofal cymdeithasol drwy awtomeiddio tasgau gweinyddol. Mae hyn yn galluogi ymarferwyr gofal cymdeithasol i ganolbwyntio ar ddarparu gofal o ansawdd uchel. Yn benodol, gellir defnyddio deallusrwydd artiffisial i drawsgrifio sgyrsiau rhwng ymarferwyr a phobl sy'n cael gofal, a defnyddio'r sgyrsiau hyn i gynhyrchu nodiadau neu gynlluniau gofal.

Mae nifer o systemau Deallusrwydd Artiffisial yn cael eu defnyddio gan awdurdodau lleol yn y DU, a Magic Notes gan Beam sy'n arwain y farchnad ar hyn o bryd. Mae'r systemau eraill sydd ar gael yn cynnwys The Social Work Way a gwasanaeth SMART Copilot ICS.AI ar gyfer Awdurdodau Lleol. Mae cynghorau eraill yn defnyddio llwyfannau deallusrwydd artiffisial heb fod yn arbenigol, fel Microsoft Copilot. Mae'r Grŵp IEG wedi datblygu adnodd deallusrwydd artiffisial ar gyfer rhaglen Gofal Iechyd Parhaus y GIG er mwyn lleihau'r gwaith o wneud nodiadau â llaw. Ar hyn o bryd mae'r adnodd wedi'i dargedu at gyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol.

Mae darparwyr meddalwedd rheoli gofal mwy, fel Birdie, Acces a System C, hefyd wedi datblygu llwyfannau trawsgrifio sy'n integreiddio â'u pecynnau meddalwedd ehangach. Mae datblygwyr llai yn cynnwys Stable, Care Voice, Unique IQ a Caption.Ed, sydd wedi'u lleoli yng Nghaerdydd. Mae Deorfa Deallusrwydd Artiffisial Llywodraeth y DU hefyd wedi datblygu Minute, adnodd i'w ddefnyddio mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Ar ben hynny, mae cwmnïau rhyngwladol fel Ordis yn cyflwyno eu systemau trawsgrifio deallusrwydd artiffisial ym marchnad y DU.

Ac yn olaf, mae Lexacom a Tortus, offer trawsgrifio deallusrwydd artiffisial sy'n cael eu defnyddio'n bennaf mewn lleoliadau gofal iechyd, wedi cael eu rhoi ar waith mewn lleoliadau iechyd cymunedol, ac felly efallai y byddant yn cael eu defnyddio ym maes gofal cymdeithasol.

## Eisiau gwybod mwy?

Anfonwch e-bost at helo@hwbgbcymru.com i gael yr adroddiad llawn, gan gael mynediad at fewnwelediadau, ystadegau a gwybodaeth am ddeallusrwydd artiffisial mewn gofal cymdeithasol.

## Gwybodaeth am y Sector

Mae ein tîm yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth am dueddiadau'r farchnad, anghenion cwsmeriaid a thirwedd ehangach y diwydiant. Mae hyn yn siapio strategaethau, yn nodi risgiau ac yn dod o hyd i gyfleoedd twf cyffrous. Mae sefydliadau comisiynu yn cynnwys busnesau bach a chanolig, byrddau iechyd, Llywodraeth Cymru, a'r byd academaidd.

## Gwybodaeth am Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru

Rydyn ni'n gyrru'r gwaith o ddatblygu a defnyddio arloesedd gwyddorau bywyd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydyn ni'n rhyngwyneb deinamig, sy'n cysylltu arloeswyr gwyddorau bywyd â phartneriaid ymchwil, cyfleoedd cyllido, defnyddwyr a thimau iechyd a gofal cymdeithasol ar y rheng flaen i gefnogi llesiant, ac yn y pen draw, i greu twf, swyddi a ffyniant ledled Cymru.

## Sut gallwn ni eich helpu chi

E-bostiwch helo@hwbgbcymru.com i gael gwybod sut gall ein cymorth ni helpu eich arloesedd i gyrraedd y rheng flaen.

hwbgbcymru.com

helo@hwbgbcymru.com

Ionawr 2026